OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2486 (Cy.270)

# GARDDWRIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) (Diwygio) 2011

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi effaith, o ran Cymru, i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 543/2011 dyddiedig 7 Mehefin 2011 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 mewn perthynas â'r sectorau ffrwythau a llysiau a ffrwythau a llysiau wedi eu prosesu (OJ Rhif L 157, 15.6.2011, t.1) "Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011".

Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011 yn cydgrynhoi Rheoliad (EC) Rhif 1580/2007 (OJ Rhif L 350, 31.12.2007, t.1) a oedd wedi ei ddiwygio.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009, O.S. 2009/1551 (Cy. 151) er mwyn diweddaru'r cyfeiriadau angenrheidiol at ddeddfwriaeth berthnasol yr UE.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei lunio ar gyfer yr offeryn hwn, gan na ragwelir y bydd yn effeithio ar y sectorau preifat, gwirfoddol na chyhoeddus.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 2486 (W.270)

# HORTICULTURE, WALES

## The Marketing of Fresh Horticultural Produce (Wales) (Amendment) Regulations 2011

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations give effect, in relation to Wales, to Commission Implementing Regulation (EU) No 543/2011 of 7 June 2011 laying down detailed rules for the application of Council Regulation (EC) No 1234/2007 in respect of the fruit and vegetables and processed fruit and vegetables sectors (OJ No L 157, 15.6.2011, p.1) "the Commission Implementing Regulation 543/2011".

The Commission Implementing Regulation 543/2011 consolidates Regulation (EC) No 1580/2007 (OJ No L 350, 31.12.2007, p.1) which had been amended.

These Regulations amend the Marketing of Fresh Horticultural Produce (Wales) Regulations 2009, S.I. 2009/1551 (W. 151) to update the necessary references to the relevant EU legislation.

A regulatory impact assessment for this instrument has not been produced as no impact on the private, voluntary or public sectors is foreseen.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2486 (Cy.270)

# GARDDWRIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) (Diwygio) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Hydref 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *18 Hydref 2011* |
| *Yn dod i rym* | *8 Tachwedd 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn yr adran honno o'r Ddeddf honno ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at ddarpariaethau Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 543/2011(**3**) yn yr offeryn y mae'r Rheoliadau hyn yn ei ddiwygio i gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y darpariaethau hynny fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi(**4**).

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1**.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) (Diwygio) 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 8 Tachwedd 2011.

(**1**) Yn rhinwedd erthygl 3 o Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 5) 2010, O.S. 2010/2690.

(**2**) 1972, p.68.

(**3**) OJ Rhif L 157, 15.6.2011, t.1.

(**4**) Mewnosodwyd paragraff 1A yn Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 2486 (W.270)

# HORTICULTURE, WALES

## The Marketing of Fresh Horticultural Produce (Wales) (Amendment) Regulations 2011

| | |
|---|---|
| *Made* | *18 October 2011* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *18 October 2011* |
| *Coming into force* | *8 November 2011* |

The Welsh Ministers are designated(**1**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**2**) in relation to the common agricultural policy of the European Union.

These Regulations make provision for a purpose mentioned in that section of that Act and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for references to provisions of Commission Implementing Regulation (EU) No 543/2011(**3**) in the instrument which these Regulations amend to be construed as references to those provisions as amended from time to time.

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of, and paragraph 1A of Schedule 2(**4**) to, the European Communities Act 1972.

### Title, application, and commencement

**1**.—(1) The title of these Regulations is the Marketing of Fresh Horticultural Produce (Wales) (Amendment) Regulations 2011.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) These Regulations come into force on 8 November 2011.

(**1**) By virtue of article 3 of the European Communities (Designation) (No. 5) Order 2010, S.I. 2010/2690.

(**2**) 1972, c.68.

(**3**) OJ No L 157, 15.6.2011, p.1.

(**4**) Paragraph 1A was inserted into Schedule 2 by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c.51).

**Diwygio Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009**

**2**. Mae Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**Diwygio cyfeiriadau at "rheolau marchnata'r Gymuned"**

**3**. Yn lle "rheolau marchnata'r Gymuned", ym mhob man (gan gynnwys pennawd rheoliad 4) lle y mae'n digwydd rhodder "rheolau marchnata'r UE".

**Diwygio rheoliad 2**

**4**. Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1), yn lle'r diffiniad o "Rheoliad y Comisiwn 1580/2007", rhodder—

"ystyr "Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011" ("*Commission Implementing Regulation 543/2011*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 543/2011 dyddiedig 7 Mehefin 2011 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 mewn perthynas â'r sectorau ffrwythau a llysiau a ffrwythau a llysiau wedi eu prosesu(**2**), fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.";

(b) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle'r diffiniad o "rheolau marchnata'r UE" (fel y'i diwygiwyd gan reoliad 3), rhodder—

"ystyr "rheolau marchnata'r UE" ("*EU marketing rules*") yw'r safon farchnata gyffredinol a'r safonau marchnata penodol sy'n cwmpasu ffrwythau a llysiau ffres a restrir yn Rhan IX o Atodiad I i Reoliad y Cyngor 1234/2007, ac sy'n cynnwys y rheolau sy'n ymwneud â'r safonau hynny a geir yn Erthyglau 113 ac 113a o Reoliad y Cyngor 1234/2007 ac yn Nheitl II o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011";

(ii) yn lle'r diffiniad o "safonau marchnata cyffredinol", rhodder—

"ystyr "safon farchnata gyffredinol" ("*general marketing standard*") yw gofynion Erthygl 113a(1) o Reoliad 1234/2007 fel y'u rhoddir yn Erthygl 3(1) a Rhan A o Atodiad I i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011";

(iii) yn y diffiniad o "safonau marchnata penodol", yn lle "Erthygl 2a(2) a Rhan B o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn 1580/2007" rhodder "Erthygl 3(2) a Rhan B o Atodiad I i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011";

(**1**) O.S. 2009/1551 (Cy. 151).

(**2**) OJ Rhif L 350, 31.12.2007, t.1.

**Amendments to the Marketing of Fresh Horticultural Produce (Wales) Regulations 2009**

**2**. The Marketing of Fresh Horticultural Produce Regulations (Wales) 2009(**1**) are amended as follows.

**Amendment of references to "Community marketing rules"**

**3**. For "Community marketing rules", in each place (including the heading of regulation 4) it occurs, substitute "EU marketing rules".

**Amendments to regulation 2**

**4**. In regulation 2—

(a) in paragraph (1), for the definition of "Commission Regulation 1580/2007", substitute—

""Commission Implementing Regulation 543/2011" ("*Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011*") means Commission Implementing Regulation (EU) No 543/2011 of 7 June 2011 laying down detailed rules for the application of Council Regulation (EC) No 1234/2007 in respect of the fruit and vegetables and processed fruit and vegetables sectors(**2**), as amended from time to time.";

(b) in paragraph (2)—

(i) for the definition of "EU marketing rules" (as amended by regulation 3), substitute—

""EU marketing rules" ("*rheolau marchnata'r UE*") means the general marketing standard and the specific marketing standards covering fresh fruit and vegetables listed in Part IX of Annex I to Council Regulation 1234/2007, and includes the rules relating to those standards contained in Articles 113 and 113a of Council Regulation 1234/2007 and Title II of Commission Implementing Regulation 543/2011";

(ii) for the definition of "general marketing standard", substitute—

""general marketing standard" ("*safon farchnata gyffredinol*") means the requirements of Article 113a(1) of Regulation 1234/2007 as detailed in Article 3(1) and Part A of Annex I to Commission Implementing Regulation 543/2011";

(iii) in the definition of "specific marketing standards", for "Article 2a(2) and Part B of Annex I to Commission Regulation 1580/2007" substitute "Article 3(2) and Part B of Annex I to Commission Implementing Regulation 543/2011";

(**1**) S.I. 2009/1551 (W. 151).

(**2**) OJ No L 350, 31.12.2007, p.1.

(c) ym mharagraff (3), yn lle "Rheoliad y Comisiwn 1580/2007", rhodder "Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011".

**Diwygio rheoliad 3**

**5**. Yn rheoliad 3(1), yn lle "Erthygl 8(1)(b) o Reoliad y Comisiwn 1580/2007", rhodder "Erthygl 9(1)(b) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011".

**Diwygio rheoliad 4**

**6**. Yn rheoliad 4(3), yn lle "Rheoliad y Comisiwn 1580/2007", rhodder "Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011".

**Diwygio rheoliad 8**

**7**. Yn rheoliad 8(2), yn lle "Atodiad VI i Reoliad y Comisiwn 1580/2007", rhodder "Atodiad V i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011".

**Amnewid yr Atodlen**

**8**. Yn lle'r Atodlen, rhodder yr Atodlen ganlynol.

(c) in paragraph (3), for "Commission Regulation 1580/2007", substitute "Commission Implementing Regulation 543/2011".

**Amendment to regulation 3**

**5**. In regulation 3(1), for "Article 8(1)(b) of Commission Regulation 1580/2007", substitute "Article 9(1)(b) of Commission Implementing Regulation 543/2011".

**Amendment to regulation 4**

**6**. In regulation 4(3), for "Commission Regulation 1580/2007", substitute "Commission Implementing Regulation 543/2011".

**Amendment to regulation 8**

**7**. In regulation 8(2), for "Annex VI to Commission Regulation 1580/2007", substitute "Annex V to Commission Implementing Regulation 543/2011".

**Substitution of the Schedule**

**8**. For the Schedule, substitute the following Schedule.

"YR ATODLEN

Rheoliad 4(3)

Darpariaethau o dan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011

| *Colofn 1* | *Colofn 2* | *Colofn 3* |
|---|---|---|
| ***Darpariaeth berthnasol Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011*** | ***Darpariaeth Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011 i'w darllen gyda'r ddarpariaeth yng ngholofn 1*** | ***Y pwnc*** |
| Erthygl 5(1) | Atodiad I, Erthygl 4(3), Erthygl 5(2) i (4), Erthygl 6, Erthygl 7 | Gofyniad cyffredinol ar gyfer manylion gwybodaeth |
| Erthygl 5(2) | Atodiad I, Erthygl 5(1), (3) a (4), Erthygl 7 | Y gofynion ar gyfer manylion gwybodaeth mewn dogfennau sy'n mynd gyda llwythi swmpus a nwyddau a lwythir yn uniongyrchol ar gyfrwng cludo |
| Erthygl 5(3) | Atodiad I, Erthygl 5(1) a (4), Erthygl 7 | Gofyniad ar gyfer manylion gwybodaeth yn achos contractau o bell sydd i fod ar gael cyn cwblhau'r pryniant |
| Erthygl 5(4) | Atodiad I, Erthygl 5(1) i (3), Erthygl 7 | Gofyniad ar gyfer manylion gwybodaeth ar anfonebau a dogfennau sy'n mynd gyda hwy |
| Erthygl 6 | Atodiad I, Erthygl 4(3), Erthygl 7 | Gofyniad ar gyfer manylion gwybodaeth yn y cyfnod manwerthu |
| Erthygl 7(1) | Atodiad I, Erthygl 4(3), Erthygl 6, Erthygl 7(2) a (3) | Y gofynion ar gyfer gwerthu cymysgeddau o wahanol fathau o ffrwythau a llysiau |
| Erthygl 10(6) | Erthygl 10(1) i (5) | Gofyniad i fasnachwyr ddarparu gwybodaeth a ystyrir gan Aelod-wladwriaethau yn angenrheidiol i'r gronfa ddata |
| Erthygl 11(4) | Erthygl 11(1) i (3), Erthygl 12, Erthygl 14 ac Atodiad III, Erthygl 15 | Gofyniad i fasnachwyr ddarparu i gyrff arolygu bob gwybodaeth sy'n ofynnol ganddynt i drefnu a chyflawni eu gwiriadau cydymffurfio |
| Erthygl 17(3), yr is-baragraff olaf | Erthygl 10, Erthygl 17(1), (2) a gweddill (3), Atodiad V | Gofyniad i fasnachwyr ddarparu pob gwybodaeth y bernir ei bod yn angenrheidiol gan y corff arolygu ar gyfer dull yr arolygiad". |

"SCHEDULE

Regulation 4(3)

Provisions under Commission Implementing Regulation 543/2011

| *Column 1* | *Column 2* | *Column 3* |
|---|---|---|
| ***Relevant provision of Commission Implementing Regulation 543/2011*** | ***Provision of Commission Implementing Regulation 543/2011 to be read with the provision in column 1*** | ***Subject matter*** |
| Article 5(1) | Annex I, Art 4(3), Art 5(2) to (4), Art 6, Art 7 | General requirement for information particulars |
| Article 5(2) | Annex I, Art 5(1), (3) and (4), Art 7 | Requirements for information particulars in documents accompanying bulk shipments and goods loaded directly onto a means of transport |
| Article 5(3) | Annex I, Art 5(1) and (4), Art 7 | Requirement for information particulars in the case of distance contracts to be available before the purchase is concluded |
| Article 5(4) | Annex I, Art 5(1) to (3), Art 7 | Requirement for information particulars on invoices and accompanying documents |
| Article 6 | Annex I, Art 4(3), Art 7 | Requirement for information particulars at the retail stage |
| Article 7(1) | Annex I, Art 4(3), Art 6, Art 7(2) and (3) | Requirements for sale of mixes of different types of fruit and vegetables |
| Article 10(6) | Art 10(1) to (5) | Requirement for traders to provide information that Member States consider necessary for the database |
| Article 11(4) | Art 11(1) to (3), Art 12, Art 14 and Annex III, Art 15 | Requirement for traders to provide inspection bodies with all information required by them for organising and carrying out conformity checks |
| Article 17(3), final sub-paragraph | Art 10, Art 17(1), (2) and the rest of (3), Annex V | Requirement for traders to supply all information deemed necessary by the inspection body for method of inspection". |

*Alun Davies*

Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, o dan awdurdod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, un o Weinidogion Cymru

Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes, under authority of the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, one of the Welsh Ministers

18 Hydref 2011

18 October 2011

© Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2486 (Cy.270)

## GARDDWRIAETH, CYMRU

Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) (Diwygio) 2011

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 2486 (W.270)

## HORTICULTURE, WALES

The Marketing of Fresh Horticultural Produce (Wales) (Amendment) Regulations 2011

ISBN 978-0-348-10455-4

9 780348 104554

£5.75

W1075/11/11 ON